

**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Medi 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Harris, A. S. Johnson, B. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, P. Prendergast, Ms V. Roberts a T. Thomas

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

#### **43. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheiriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms. J. Hughes, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs W. M. Mullen-James, A. J. Rutherford, Miss C. L. Williams a Maer y Caplan, Y Parchedig Andy Grimwood.

#### **44. CYFLWYNIAD: GIDEONS INTERNATIONAL**

Croesawodd y Maer Mr John Graham i'r cyfarfod.

Rhoddodd Mr Graham anerchiad byr cyn cyflwyno copiau o'r Ysgrythur i'r Maer, a dderbyniwyd yn ddiolchgar.

#### **45. CYFLWYNIAD: HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Croesawodd y Maer y Prif Gwnstabl Mark Polin, yr Arolygydd Alwyn Williams a'r Ditectif Arolygydd John Russell i'r cyfarfod a'u gwahodd i annerch y Cyngor.

Diolchodd Mr Polin i'r Cyngor am ei wahodd cyn nodi bod y Rhyl yn llawn pobl dda a bod y dref yn parhau i fod yn lle bywiog a ffyniannus. Aeth ymlaen i adrodd:

- Nad oedd cysylltiad rhwng y digwyddiadau a restrwyd yn llythyrau Clerc y Dref ato yn dyddio o fis Mawrth i fis Mehefin eleni a chan gynnwys y digwyddiad domestig angheuol yn gynharach y mis hwn.
- Roedd nifer fechan o'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â throedd cyfundrefnol, a oedd yn cael ei dargedu'n gadarn.
- Roedd mwy nag 20 o bobl wedi eu harestio o ganlyniad, gyda 18 ohonynt wedi eu cyhuddo. Enghraifft o'r gyfradd erlyn uchel yma yn y Rhyl a ledled Gogledd Cymru (e.e. arweiniodd y llofruddiaeth 'Home Bargains' at gyfnodau yn y carchar o 78 o flynyddoedd i gyd.)
- Roedd troseddau traws-ffiniol yn broblem genedlaethol ac yn un a oedd yn effeithio Gogledd Cymru gan ei bod mor agos at ddwy o'r prif ardaloedd ar gyfer trosedd gyfundrefnol yn y DU – Lerpwl a Manceinion; y ddau le arall oedd Birmingham a Llundain.
- Roedd yr holl dactegau a oedd ar gael i Heddlu Gogledd Cymru wrth ddelio â'r broblem gyffuriau leol yn cael eu defnyddio.

- Roedd tair warant yr wythnos yn cael eu cyflwyno yn y Rhyl a'r ardaloedd o gwmpas.
- Roedd lefel troseddau cyllyll wedi cynyddu yn genedlaethol, ac roedd 'stopio a chwilio' yn digwydd ynghyd ag amnestau cyllyll rheolaidd, ond roedd llawer o'r digwyddiadau yn rhai domestig o ran natur, ac felly'n anodd eu rhwystro.
- Roedd angen i'r gymuned gyfan weithio gyda'i gilydd ac roedd nifer o brosiectau da yn rhedeg yn y Rhyl, un ohonynt, 'Tŷ Golau', wedi ennill Gwobr Partneriaethau Cysylltiedig â Phroblemau (POP) Heddlu Gogledd Cymru yr wythnos hon am ei waith yn delio â digartrefedd, cardota ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.
- Roedd y ddarpariaeth teledu cylch cyfyng lai yn gwneud gwaith yr heddlu yn anoddach.
- Nid oedd y Rhyl yn 'dref trosedd' ac nid oedd argyfwng.

Dywedodd Mr Williams:

- Roedd gwybodaeth leol yn hollbwysig ac anogodd gynghorwyr i barhau i rannu gwybodaeth gyda'r heddlu.
- Roedd ffocws y Cynllun Plismona Lleol ar droseddau treisgar.
- Gyda chyffuriau gwerth £20,000 a £12,000 wedi eu tynnu oddi ar y strydoedd, roedd yr heddlu yn parhau i wneud yr ardal yn lle anodd i droseddwyr weithredu ynddi.
- Roedd arian o Bartneriaethau a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) a swyddfa'r Uwch Siryf wedi bod yn ddefnyddiol iawn.
- Roedd ffocws ar yfed ar y stryd.
- Roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn mynychu digwyddiadau cymunedol yn profi'n llwyddiannus.

Adroddodd Mr Russell mai tri maes ffocws arall oedd:

- 'County Lines'. Arfer lle mae gangiau treisgar sy'n cyflenwi cyffuriau dosbarth A mewn ardaloedd trefol cyfagos yn mynd i drefi sirol llai, yn cynnig, yn y bon, gwasanaeth archebu dros y ffôn a dosbarthu.
- 'Cuckooing'. Lle mae troseddwyr yn targedu cartrefi pobl sy'n agored i niwed, i'w defnyddio i werthu cyffuriau ohonynt.
- Caethwasiaeth fodern – yn cynnwys masnacha mewn pobl ac ecsbloetio a llafur gorfodol

gyda nifer o weithrediadau yn mynd rhagddynt yn yr ardal gyda chyfradd lwyddiant ragorol.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r cyngorwyr, dywedodd y swyddogion:

- Eu bod yn synnu o glywed eu bod yn "methu'n drychinebus" pan roedd arolwg yn ddiweddar wedi dangos bod 94% o drigolion Gogledd Cymru yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain a bod Gogledd Cymru yn cael ei ystyried fel lle gyda'r lefelau trosedd isaf.
- Er gwaethaf toriadau'r Llywodraeth, nid oedd nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi ei lleihau gan fod Heddlu Gogledd Cymru wedi lleihau'r effaith ar y rheng flaen.
- Bod niferoedd heddlu yn gyson.
- Roedd gan holl gynghorwyr rifau cyswllt Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.
- Dylai cynghorwyr ffonio '999' os na fedrent gael ateb ar '101' ar adegau prysur.

- Byddent wrth eu boddau yn cynhyrchu mwy o heddweision ond nad oedd hyn yn bosibl yn ystod cyfnod maith o doriadau llymder.
- Roedd mwyafrif gwaith yr heddlu y dyddiau hyn yn delio â phobl agored i niwed, ifanc a hen, a phobl â phroblemau iechyd meddwl. Roedd llai nag 20% o amser heddweision yn cael ei dreulio ar drosedd.
- Roeddent yn cytuno bod cyfathrebu ar fentrau a straeon o lwyddiant i'r cyhoedd yn syniad da ac yn helpu lliniaru unrhyw bryderon a delio â'r syniad o lefelau trosedd yn lleol.
- Roeddynt yn agored i unrhyw syniadau sydd gan y cyngorwyr o ran eu helpu i gysylltu gyda'r gymuned leol gan fod presenoldeb isel iawn wedi bod mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn y gorffennol ac nad oeddynt yn cael eu trefnu bellach.
- Roeddynt yn falch o glywed y cyngorwyr yn canmol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a bod ganddynt berthynas waith dda gyda nhw. Dylai'r lefel hon o wasanaeth fod yn gyson.
- Roedd rhai mathau o drosedd wedi gostwng, ac eraill wedi cynyddu, ond bod y rhain wedi cynyddu'n genedlaethol ac felly nid oeddynt yn broblem leol.
- Ar hyn o bryd roedd pump o swyddi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn wag ledled y rhanbarth ac yn y broses o gael eu llenwi. Roedd y rhain wedi codi oherwydd bod deiliaid y swyddi wedi dod yn heddweision.
- Roedd recriwtio yn y rhanbarth wedi dyblu wrth i Heddlu Gogledd Cymru ail-flaenoriaethu ei gyllideb.
- Roedd Mr Polin ar hyn o bryd yn ystyried y posibilrwydd o gynyddu'r pwerau yr oedd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, diolchodd y Maer i'r swyddogion am eu presenoldeb a chyhoeddodd egwyl o bum munud.

### **PENDERFYNWYD:**

- i) *Bod Clerc y Dref yn anfon ebost at bob cynghorydd i gasglu eu sylwadau ar argaeledd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn eu wardiau, ac i benderfynu ar ddau gynghorydd i fynd gyda Mr Polin ar ei batrol yn y Rhyl yn ystod y shifft nos ar 30ain Medi 2017;*
- ii) *Bod Clerc y Dref yn trefnu ymweliad i'r cyngorwyr â Gorsaf yr Heddlu yn y Rhyl i roi cyfle iddynt weld y gwaith a oedd yn mhynd rhagddo yno;*
- iii) *Cymeradwyo'r datganiad a ddosbarthwyd yn y cyfarfod i'w ddefnyddio gan y cyngorwyr.*

### **46. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 19eg Gorffennaf 2017 - Rhifau Cofnod 25-42

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendegast a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 19eg Gorffennaf 2017 - Rhifau Cofnod 10-12

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms. J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms. J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 6ed Medi 2017 - Rhifau Cofnod 44-61  
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendegast ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

#### 47. **ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at yr amrywiol ddigwyddiadau a fynychodd yn ystod y mis a aeth heibio ac yn benodol at ddigwyddiad "Rhyl Wylt" a oedd wedi bod yn arbennig o llwyddiannus yn ei farn ef.

Dywedodd y Cynghorydd T. Thomas ei fod wedi gofyn i'r Cyngor Sir ystyried y posibilrwydd o gael canolfan ymwelwyr ar safle Pwll Cae Brics.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

#### 48. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod).

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi ychwanegiadau i'r rhestr o gyflenwr cymeradwy.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau Aelod.

(a) Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (1af – 12fed Medi 2017)

Cyflenwr	Manylion	Rhif taleb	Dyddiad	Swm £
Glasdon UK Ltd	7 sedd a phlaciau ar gyfer y Gerddi Coffa	342	15/08/17	4,322.13
Y Gynghrair Frenhinol Brydeinig	2 x Math G Torch Pabi	343	07/09/17	100.00
Y Cynghorydd A James	Talu Lwfans Maer 2 o 3	305	01/09/17	997.50
Y Cynghorydd P Prendergast	Talu Lwfans Dirprwy Faer 2 o 3	306	01/09/17	332.50
Gwasg Helygain	Taflenni a phosteri ar gyfer Digwyddiad y Rhyl Wylt	344	08/09/17	229.20
Fantazia Imports Limited	Tân Gwylt 2017	345	12/09/17	6,240.00

<b>Cyfanswm Atodlen B</b>				<b>£12,221.33</b>

(b) Yr ychwanegiad canlynol i'w wneud i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy

- Glasdon UK Ltd

**49. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GALWAD AM SAFLEOEDD POSIBL SIPSIWN A THEITHWYR**

Ystyriodd yr aelodau y dogfennau ymgynghori uchod a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen ond ni fedrent adnabod unrhyw safleoedd addas yn ardal y Rhyl.

**PENDERFYNWYD** hysbysu'r Cyngor Sir nad oedd safleoedd addas ar gael a phetai unrhyw safle o faint yn cael ei adnabod trwy'r broses ymgynghori, y dylid ei werthuso yn gyntaf fel safle posibl ar gyfer mynwent.

**50. BARN ARCHWILWYR ALLANOL AR DDATGANIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2016/17**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), adroddiad glân gydag ond un mater a nodwyd yn ymwneud â thystysgrifo dogfennau a gyflwynwyd, a dywedodd bod y swyddogion yn ystyried hyn.

**PENDERFYNWYD** derbyn a chydnabod yr adroddiad.

**51. HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**52. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**53. RHAGLEN DIGWYDDIADAU BACH 2018/2019**

Hysbysodd Clerc y Dref y cyfarfod o ffrydiau ariannu a oedd ar gael i'r Cyngor Tref ar gyfer digwyddiadau, os oedd yn penderfynu parhau i gynnig ei raglen o ddigwyddiadau trwy gomisiynu gwasanaethau Gunsmoke Communications am 12 mis arall.

Adroddodd y Cynghorwyr eu bod yn hapus iawn gyda'r digwyddiadau am ddim a drefnwyd hyd yma gan Gunsmoke Communications, a oedd yn boblogaidd gyda phreswylwyr ac ymwelwyr, ac a oedd yn codi proffil y Cyngor Tref yn gadarnhaol.

**PENDERFYNWYD:**

- i) Bod y Cyngor yn cymeradwyo comisiynu gwasanaethau Gunsmoke Communications am 12 mis arall, heb newid yn y gyllideb.
- ii) Bod Clerc y Dref yn gofyn i Gunsmoke Communications gysylltu â'r Cynghorydd B. Blakeley gyda golwg ar ystyried addasrwydd dau fan gwyrdd

*yn ward Tynwydd ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol, i'w hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol.*

**54. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**55. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: .....